Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

# Hawliau Pobl Hŷn mewn Cartrefi Gofal

# Cynllun Gwaith 2022 – 2024

## Cyflwyniad

Ym mis Ebrill 2021, cynhaliodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru fforwm drafod ar hawliau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal. Nod y fforwm drafod oedd rhoi cyfle i drafod ac archwilio'r heriau a wynebir gan bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal (a'u teuluoedd a'u ffrindiau) ac i ba raddau y mae hawliau preswylwyr yn cael eu cynnal. Bwriad y trafodaethau hyn oedd nodi'r newidiadau ymarferol sydd eu hangen yn y tymor byr a nodi unrhyw newid tymor hir sydd ei angen i gefnogi ac ymestyn hawliau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal.

Daeth y fforwm drafod â sefydliadau o bob rhan o'r DU at ei gilydd, gan gynnwys:

- Age Cymru
- Age UK
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Fforwm Gofal Cymru
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Comisiynydd Pobl Hŷn Gogledd Iwerddon
- Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru
- Cymdeithas Perthnasau a Phreswylwyr
- Scottish Care
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Fforwm Gofal Cenedlaethol

Cynhaliwyd cyfarfodydd dilynol i drafod y camau yr oedd eu hangen ac i ddatblygu cynllun gwaith ar gyfer datblygu'r gwaith hwn.  Er bod Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn parhau i hwyluso'r cyfarfodydd hyn, mae'r holl sefydliadau dan sylw yn gydberchnogion o'r rhaglen waith.

## Rhaglen Waith

Er mwyn creu'r newid sydd ei angen, nodwyd sawl prosiect yn ymwneud â'r canlyniadau canlynol:

- Mwy o sicrwydd deiliadaeth i breswylwyr cartrefi gofal
- Bod preswylwyr cartrefi gofal yn gallu mwynhau ansawdd bywyd da

- Bod preswylwyr Cartrefi Gofal yn cael eu trin ag urddas a pharch, a bod eu hawliau'n cael eu cynnal bob amser
- Bod preswylwyr cartrefi gofal a'u teuluoedd yn deall eu hawliau, gan gynnwys sut i'w gorfodi
- Bod hawliau dynol wedi'u gwreiddio fel rhan sylfaenol o ofal o ansawdd da
- Bod gan bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal lais mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau
- Bod arfer gwael yn cael ei amlygu a'i atal rhag digwydd eto
- Bod gwersi'n cael eu dysgu am y graddau y cynhaliwyd hawliau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a bod preswylwyr yn cael eu diogelu'n ddigonol gan y Llywodraeth(au)

Er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn, cymerir camau sy'n cynnwys:

- Cynyddu diogelwch deiliadaeth preswylwyr drwy ddatblygu Contract sy'n seiliedig ar hawliau a thrwy gryfhau amddiffyniadau cyfreithiol;
- Creu Canllawiau newydd ar ymweld â chartrefi gofal sy'n seiliedig ar fframwaith cyfreithiol Hawliau Dynol;
- Gweithio gyda rheoleiddwyr gwasanaethau a'r gweithlu i ymgorffori Hawliau Dynol mewn fframweithiau arolygu ac o fewn arferion gofal cymdeithasol;
- Newid dulliau Iechyd y Cyhoedd o ymdrin â gweithdrefnau rheoli heintiau fel nad yw cartrefi gofal bellach yn cael eu trin fel lleoliadau clinigol;
- Cynyddu ymwybyddiaeth preswylwyr cartrefi gofal a'u teuluoedd o'u hawliau a'u bod yn gallu gwneud cwynion;
- Cynyddu mynediad preswylwyr cartrefi gofal at eiriolaeth annibynnol, yn enwedig i'r preswylwyr hynny sydd heb deulu neu ffrindiau;
- Datblygu dull strategol o ddefnyddio data cwynion i wella ymarfer.

## Y Camau Nesaf

Cynhelir cyfarfodydd yn gynnar yn 2022 i ddatblygu pob un o'r meysydd gwaith a nodwyd, gyda'r prif rwydwaith o sefydliadau'n parhau i gyfarfod bob chwarter i fonitro cynnydd yn erbyn y cynllun gwaith.

Er bod llawer o'r meysydd a nodir yn y cynllun gwaith yn gyffredin ledled y DU, bydd eraill lle mae angen dull gweithredu penodol ym mhob gwlad unigol.  Bydd gwaith, felly, yn cael ei wneud ledled y DU lle bo hynny'n bosibl, gydag arweiniad ym mhob gwlad pe bai angen cymryd camau gwahanol i greu newid ledled y DU.

Bydd rhywfaint o'r gwaith a nodwyd yn gofyn am weithredu gan nifer o gyrff i gyflawni'r canlyniad a fwriedir.  O'r herwydd, mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn awyddus i ymgysylltu â sefydliadau sydd am gyfrannu at greu'r newid sydd ei angen i sicrhau bod hawliau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yn cael eu cynnal.